

WILLIAMS, JOHN ('Ab Ithel'; 1811 - 1862), clerigwr a hynafiaethydd

Enw: John Williams
Ffugenw: ab Ithel
Dyddiad geni: 1811
Dyddiad marw: 1862
Priod: Elizabeth Lloyd Williams (née Williams)
Rhiant: Elizabeth Williams
Rhiant: Roger Williams
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clerigwr a hynafiaethydd
Maes gweithgaredd: Crefydd; Hanes a Diwylliant
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd ar y 7 Ebrill 1811 yn Tynant, Llangynhafal, yn fab i Roger ac Elizabeth Williams; enw ei daid oedd William Bethell, ac yn ddiweddarach mabwysiadodd yntau'r cyfenw hwnnw yn y ffurf ' Ab Ithel,' gan roi heibio'r ffugenw ' Cynhaval ' a arddelai gynt. Bu yn ysgol Rhuthyn a Choleg Iesu (1832), Rhydychen; graddiodd yn 1835, a cymerodd radd M.A. yn 1838. Ei guradiaeth gyntaf oedd Llanfor; yno y priododd ag Elizabeth Lloyd Williams (nith i'w ficer), ac yno (1836) y cyhoeddodd ei lyfr cyntaf, *Eglwys Loegr yn Anymddibynol ar Eglwys Rhufain*. Yn 1843, cafodd guradaeth barhaol Nercwys, ac yno (1844) y cyhoeddodd ei *Ecclesiastical Antiquities of the Cymry*. Penodwyd ef yn rheithor Llan-ym-Mawddwy yn 1849. Yn ystod yr ymgyrch yn erbyn y bwriad o uno dwy esgobaeth Bangor a Llanelwy, yr oedd wedi dod i gyfeillgarwch ag un arall o wrthwynebwyr y bwriad hwnnw, sef [H. Longueville Jones](#), ac yn 1846 cychwynasant gyhoeddi *Archaeologia Cambrensis*. Cydolygodd *Archaeologia Cambrensis* gyda [H. Longueville Jones](#) hyd 1851, o hynny hyd 1853 ef oedd yr unig olygydd. Rhoes yr olygyddiaeth i fyny yn 1853. Sefydlwyd y Cambrian Archaeological Association yn yr un cyfnod. Yn 1852 cyhoeddodd ' Ab Ithel ' argraffiad a chyfieithiad o'r *Gododdin*. Ffraeodd y ddau gyfaill yn 1853 - gwrthdaro rhwng tymheredd archaeolegydd manwl 'sych' a thymheredd Cymreigiwr brwd nad oedd ei sêl yn ôl gwybodaeth.

Nid oedd gan ' Ab Ithel ' nemor ysgolheictod, ac ar y llaw arall yr oedd wedi mallu ei ymennydd a chwedloniaeth '[lolo Morganwg](#)' a'i ysgol - yn enwedig '[Myfyr Morganwg](#)' (Evan Davies). Yn anffodus, yr oedd erbyn hyn yn cael ei ystyried, gan bawb ond ychydig wyr beirniadol, fel pennaeth ysgolheictod Gymreig - ystyriwyd ei enw'n ddirfiam y gadair Gelteg y sonniod am ei sefydlu yn Rhydychen. Cychwynnodd y Cambrian Institute, gyda'i; chylchgrawn y *Cambrian Journal* a olygodd o 1854 hyd ei farw. Daeth yn brif ddyd y Welsh MSS. Society, a golygodd bedair o'i chyfrolau; gwaeth fyth, ar ôl marw [Aneurin Owen](#) penodwyd ef gan y Llywodraeth (1858) i gwplâu'r cynllun o gyhoeddi'r hen groniciâu o hanes Cymru - ymddangosodd *Annales Cambriae* a *Brut y Tywysogion* yn 1860. Rhidyllwyd ei waith golygyddol gan feirniaid diweddarach - nid yn unig am nad oedd ganddo unrhyw syniad sut i olygu hen lawysgrifau'n wyddonol, ond hefyd am iddo ddefnyddio gwaith gwyr eraill (megis [Aneurin Owen](#) neu [Thomas Rowland](#)) heb gydnabod hynny. Eithr penllanw ei ffolineb oedd ' Eisteddfod Fawr Llangollen ' (1858), a drefnwyd ganddo ef a'i ffrindiau megis '[Môr Meirion](#)' (R. W. Morgan) a '[Carn Ingli](#)' (Joseph Hughes), ac a oedd yn wawd ac yn warth i'w gydwladwyr ystyriol - 'enillodd' ef a'i deulu amryw o'r gwobrau, a cholllarnwyd [Thomas Stephens](#) am feiddio amau dilysrwydd stori Madog. Ar waethaf hyn oll, bu eisteddfod 1858 yn garreg filltir go bwysig yn hanes yr eisteddfod genedlaethol - heb unrhyw ddiolch i'w threfnwyr.

O'r ochr arall, ni ellir mewn unrhyw fodd wadu egni a diwydrwydd ' Ab Ithel,' mewn byd nac eglwys, na'i wir gariad at ei genedl. Yr oedd yn offeiriad plwyf ymroddedig dros ben, a heblaw hynny'n arolygydd ysgolion '[Madam Bevan](#)' yng Ngogledd Cymru, a'r ysgolion eglwysig yn neoniaeth Llanelwy. Efe oedd yr offeiriad cyntaf i wasanaethu plwyf newydd Rhosygwaliau. Uchel-eglwyswr (eto nid defodwr) oedd ef, ac yn 1850 gwnaeth ei orau i gychwyn protest yn erbyn dyfarniad y Cyfrin Gyngor yn achos enwog Gorham. Gweithiai mor galed nes iddo dorri i lawr ddwywaith - yn 1849, pan roddwyd ef dros dro ym mhlwyf ysgafnach Llangorwen; ac yn 1855, pan fu raid iddo gymryd bron ddwy flynedd o seibiant oddi wrth ddyletswyddau plwyfol. Fis Mawrth 1862, symudwyd ef o Lan-ym-Mawddwy (ei olynydd yno oedd [Daniel Silvan Evans](#)) i Lanenddwyn a Llanddwywe (Dyffryn Ardudwy). Ond yr oedd ei iechyd erbyn hynny wedi dadfeilio'n llwyr, a bu farw 27 Awst 1862; claddwyd ym mynwent Llanddwywe. Rhoddwyd pensiwn sifil i'w weddw, Elizabeth, 18 Mehefin 1873.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Foster, *Alumni Oxonienses*

James Kenward, *Ab Ithel an account of the life and writings of the Rev. John Williams ab Ithel, M.A., B.B.D., late Rector of*

Llanymowddwy, Merioneth (Dinbych 1871)

G. J. Williams, 'Ab Ithel,' yn *Y Llenor: cylchgrawn chwarterol dan nawdd cymdeithasau Cymraeg y colegau cenedlaethol*, 1933, 216-30; 1934, 88-100

J. E. Lloyd yn *A Hundred Years of Welsh Archaeology*, 11-15

Owen Williams, *Llyfryddiaeth Sir Ddinbych* (1935-7, 1951), rhan 3, 179

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [John Williams \(Ab Ithel\)](#)

Gweithiau

John Williams, *The Physicians of Myddvai: Meddygon Myddfai* (Llandovery 1841)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [119948664](#)

Wikidata: [Q13129361](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

